

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 25AIN O EBRILL 2016 YN YSTAFELL PWYLLGOR, KING'S HEAD, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stan Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Iona Edwards-Jones, Elfed Williams, Iwan Jones, Barri Evans, Y Cynghorydd Sir Joe Welch a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Falmai Evans, Jill Evans, Gwennan Hughes a Hywel Davies.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 21ain o Fawrth 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad Swyddog Adran Cludiant a Seilwaith Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Mae polisi'r Cyngor Sir ddim yn caniatáu Cynghorau Cymunedol ariannu arwyddion fflachio diogelwch yn cynnwys Pentre' Llanrhaeadr. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ofyn am gopi o'r polisi'r Cyngor.

2. Chadarnhawyd bod y safle parcio ar y gilfa'n yn safle parcio cyhoeddus ac nid oes bosib stopio moduron parcio ar y safle a nodwyd fod y fan wedi symud o'r lleoliad bellach, ond wyra'ch bod bosib rhoi arwydd i reoli faint o amser mae unrhyw gerbyd yn cael aros ar y safle. Derbyniwyd adroddiad yr aelodau bod y fan yn dal i barcio yn y lleoliad a phenderfynwyd gofyn am yr arwydd a soniwyd gan y Swyddog y Cyngor Sir.

3. Nid mae'r ffens diogelwch yn y gilfa'n newydd o flaen Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr yn amharu ar yr olygfa'r traffic yn y gyffordd o dan yr "Technical Advice Note 18: Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru".

B. Mae Adran Briffyrdd wedi trwsio'r wyneb y ffordd heibio'r Fron, Prion erbyn hyn.

C. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch oddi wrth y mudiadau canlynol am gefnogaeth arian y Cyngor:-

1. Cymdeithas Maes-y-Plwm.

2. Capel Saron tuag at dorri'r glaswellt y fynwent.

3. Urdd Gobaith Cymru tuag at gostau teithio Dafydd Wyn Jones.

D. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio i newid defnydd tir i roi pedwar cwt bugail yn Springs Spa, Llanrhaeadr.

E. Derbyniwyd a chadarnhaodd yr aelodau'r ymateb mae'r Cynghorydd Elfed Williams wedi ei baratoi i'r Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r polisi arwyddion o flaen Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £6,440.00.

B. Taliadau:-

1. AON – Yswiriant Blynyddol - £518.76.

2. Cennin Ltd. - Ffi'r Wefan Gymunedol - £112.63.

3. Stanley Williams – Lwfans Blynyddol y Cadeirydd - £250.00.

C. Cytunwyd Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 ac arwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc y Cyngor.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Newid defnydd tir amaethyddol i leoliad parcio moduron yng Nghurig, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

B. Estyniad i Ael-y-Bryn, Llanrhaeadr - penderfynwyd yr aelodau i wrthod y cais cynllunio gan fydd yr estyniad yn dyniad llygad.

6. GOHEBIAETH.

A. Gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r Clerc fynychu cyfarfod Clwstwr Cyngorau Tref a Chymuned Rhuthun gyda'r Cyngor Sir Ddinbych ar nos Iau 19eg o Fai 2016 am 6.00 yn Neuadd y Sir, Rhuthun.

B. Gwahoddiad gan Un Llais Cymru am gynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2016 ar Ddydd Sadwrn 1af o Hydref 2016. Penderfynwyd gadael ar y bwrdd hyd gyfarfod nesaf y Cyngor.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Derbyniwyd gwybodaeth bod Y Post Brenhinol wedi rhoi blwch postio newydd gyferbyn a Stad Bryn Llan yn Llanrhaeadr. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc wneud ymholiadau ynglŷn ar reswm y blwch postio newydd.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gysylltu Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Problem baw cwn wrth Carreg-y-Pennill yn Llanrhaeadr.
2. Eisiau wyneb ffordd newydd rhwng Graig Lwyd ar Groesffordd ym Mhrion.
3. Tyllau yn y ffordd rhwng Rhiwlas Uchaf a Rhiwlas Ganol yn Saron.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 23ain o Fai 2016 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.00 o'r gloch.